**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2005 Rhif 1648 (Cy.129)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Addysg (Cyrff sy'n Cael eu Rhestru) (Cymru) (Diwygio) 2005

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn ychwanegu tri chorff at y cyrff sy'n cael eu rhestru yn Adran 1, Rhan 1 o'r Atodlen i Orchymyn Addysg (Cyrff sy'n Cael eu Rhestru) (Cymru) 2004. Nid yw corff sy'n cael ei restru felly yn gorff cydnabyddedig o fewn adran 216(4) o Ddeddf Diwygio Addysg 1998 ond yn un y mae'n ymdddangos i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ei fod naill ai

(a) yn darparu cwrs sy'n baratoad at radd sydd i'w rhoi gan gorff cydnabyddedig o'r fath ac a gymeradwyir gan y corff hwnnw neu ar ran y corff hwnnw; neu

(b) yn goleg, ysgol, neuadd neu sefydliad prifysgol arall sy'n gorff cydnabyddedig o'r fath.

Ystyr 'cyrff cydnabyddedig' yw prifysgolion, colegau neu gyrff eraill a awdurdodir gan Siarter Frenhinol neu gan Ddeddf Seneddol neu o dan Ddeddf Seneddol i roi graddau a chyrff eraill a ganiateir am y tro gan y cyrff hynny i weithredu ar eu rhan wrth roi graddau.

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2005 No. 1648 (W.129)

# EDUCATION, WALES

## The Education (Listed Bodies) (Wales) (Amendment) Order 2005

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

This Order adds three bodies to the bodies listed in Section 1, Part I of the Schedule to the Education (Listed Bodies)(Wales) Order 2004. A body so listed is not a recognised body within section 216(4) of the Education Reform Act 1988 but one which appears to the National Assembly for Wales either

(a) to provide a course which is in preparation for a degree to be granted by such a recognised body and is approved by or on behalf of that body; or

(b) to be a constituent college, school, hall or other institution of a university which is such a recognised body.

'Recognised bodies' are universities, colleges or other bodies which are authorised by Royal Charter or by or under Act of Parliament to grant degrees and other bodies for the time being permitted by those bodies to act on their behalf in the granting of degrees.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2005 Rhif 1648 (Cy.129)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Addysg (Cyrff sy'n Cael eu Rhestru) (Cymru) (Diwygio) 2005

*Wedi'i wneud* *21 Mehefin 2005*

*Yn dod i rym* *30 Mehefin 2005*

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 216(2) o Ddeddf Diwygio Addysg 1988(**1**) ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**) mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1**.-(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Addysg (Cyrff sy'n Cael eu Rhestru) (Cymru) (Diwygio) 2005 ac fe ddaw i rym ar 30 Mehefin 2005.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

**Diwygio Gorchymyn Addysg (Cyrff sy'n Cael eu Rhestru) (Cymru) 2004**

**2**. Ychwaneger at y rhestr o gyrff yn Adran 1, Rhan I o'r Atodlen i Orchymyn Addysg (Cyrff sy'n Cael eu Rhestru) (Cymru) 2004(**3**) y cyrff canlynol (yn eu lle priodol yn ôl trefn yr wyddor), sef cyrff sy'n ymddangos i Gynulliad Cenedlaethol Cymru eu bod yn dod o dan adran 216(3) o Ddeddf Diwygio Addysg 1988:

(1) Kensington College of Business;

(2) London City College;

(3) School of Technology and Management(**4**).

(1) 1988 p.40.

(2) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan yr adran hon i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(3) O.S. 2004/3095 (Cy.269).

(4) Is-adran o London School of Commerce.

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2005 No. 1648 (W.129)

# EDUCATION, WALES

## The Education (Listed Bodies) (Wales) (Amendment) Order 2005

*Made* *21 June 2005*

*Coming into force* *30 June 2005*

In exercise of the powers conferred on the Secretary of State by section 216(2) of the Education Reform Act 1988(**1**) and now vested in the National Assembly for Wales(**2**) the National Assembly for Wales makes the following Order:

**Title, commencement and application**

**1**.-(1) The title of this Order is the Education (Listed Bodies) (Wales) (Amendment) Order 2005 and it comes into force on 30 June 2005.

(2) This Order applies in relation to Wales.

**Amendment of the Education (Listed Bodies) (Wales) Order 2004**

**2**. To the list of bodies in Section 1, Part I of the Schedule to the Education (Listed Bodies) (Wales) Order 2004(**3**) the following bodies are added (at their appropriate places in the alphabetical order), being bodies which appear to the National Assembly for Wales to fall within section 216(3) of the Education Reform Act 1988:

(1) Kensington College of Business;

(2) London City College;

(3) School of Technology and Management(**4**).

(1) 1988 c.40.

(2) The functions of the Secretary of State under this section were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

(3) S.I. 2004/3095 (W.269).

(4) A division of the London School of Commerce.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**1**)

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**1**).

21 Mehefin 2005

21 June 2005

*D. Elis-Thomas*

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

(1) 1998 p.38.

(1) 1998 c.38.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2005 Rhif 1648 (Cy.129)

# ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Addysg (Cyrff sy'n Cael eu Rhestru) (Cymru) (Diwygio) 2005

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2005 No. 1648 (W.129)

# EDUCATION, WALES

The Education (Listed Bodies) (Wales) (Amendment) Order 2005

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2005

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2005

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-091156-3

9 780110 911564

**£3.00**

W96/6/05 ON